


# Faint o ddŵr sydd ei angen ar blanhigyn?


FARMVENTION

# Beth sydd ei angen ar blanhigion?

Yn union fel bodau dynol, mae angen rhai pethau ar blanhigion er mwyn iddyn nhw dyfu a bod yn iach.

Ydych chi yn gallu meddwl am unrhyw bethau sydd eu hangen ar blanhigion?






# Fferm foron

Gwyliwch y fideo yn ofalus.

Faint o amodau sydd eu hangen ar blanhigion fedrwch chi eu cofio?

**https://youtu.be/mRdavbBf2Gs**






# Golau

- Mae planhigion angen golau er mwyn tyfu a bod yn iach.
- Mae planhigion yn glyfar iawn a gallant droi golau haul yn fwyd i'w hunain yn eu dail.
- Mae angen golau haul arnom ni hefyd i roi Fitamin D i ni a'n cadw'n iach.





# Tymheredd addas


Sut ydych chi'n teimlo os ydych chi'n mynd yn rhy oer neu'n rhy boeth?

Beth ydych chi'n ei wneud amdano?

Yn union fel ni, mae angen tymheredd addas ar blanhigion er mwyn bod yn iach.

Os na fydd tymheredd eu hamgylchedd yn iawn, fydd yr hadau ddim yn dechrau tyfu.






# Ffrwythau a llysiau Prydeinig

- Mae angen tymereddau gwahanol ar wahanol blanhigion. Dyma pam y gallwn dyfu rhai ffrwythau a llysiau ym Mhrydain ond nid pob un ohonynt.
- Mae bwyta ffrwythau a llysiau sy'n cael eu tyfu ym Mhrydain yn un ffordd y gallwn ni ofalu am yr amgylchedd.






# Dŵr

- Yn union fel ni, mae angen dŵr ar blanhigion. Heb y maint cywir o ddŵr, ni all planhigion dyfu a bod yn iach.
- Ar ddechrau bywyd planhigyn, mae angen dŵr arno i wneud iddo ddechrau tyfu i fod yn eginblanhigyn bach.
- Ar ôl i'r eginblanhigyn dyfu rhai gwreiddiau, mae angen dŵr ar y planhigyn i gymryd y maetholion (pethau iach sy'n helpu'r planhigyn i dyfu) allan o'r pridd.
- Mae planhigion yn glyfar iawn a gallant wneud eu bwyd eu hunain yn eu dail gan ddefnyddio golau haul a dŵr.






# Sychder

Mae dŵr yn bwysig iawn i ffermwyr.

Os nad oes digon o law, ni fydd eu cnydau'n gallu tyfu'n iawn.






# Llifogydd

Beth ydych chi'n meddwl fydd yn digwydd os oes gan blanhigion ormod o ddŵr?

Mae gormod o ddŵr hefyd yn broblem fawr i ffermwyr.

Gall llifogydd neu lawiad trwm effeithio ar iechyd pridd ffermwyr wrth iddo olchi i ffwrdd rhai o'r gronynnau pridd a'r maetholion sydd eu hangen ar blanhigion i dyfu a bod yn iach.






# Pridd iach

Mae pridd iach hefyd yn storio carbon.

Mae carbon yn yr atmosffer yn achosi newid yn yr hinsawdd felly trwy edrych ar ôl eu pridd a'i gadw'n iach, mae ffermwyr yn helpu i ymladd yn erbyn newid yn yr hinsawdd.






# Faint o ddŵr sydd ei angen ar blanhigyn?

Mae angen gwahanol faint o ddŵr ar wahanol blanhigion.

Rydym yn mynd i fod yn cynnal ymchwiliad i ddarganfod faint o ddŵr sydd ei angen ar blanhigyn penodol.






# Eich ymchwiliad

Byddwch yn gweithio mewn grwpiau i blannu tri o'r un hadau.

Bydd un hedyn yn derbyn dim dŵr, bydd un yn cael ychydig bob dydd a bydd yr un arall yn cael llawer o ddŵr bob dydd.






# Arsylwi

Byddwch yn cadw dyddiadur i gofnodi eich arsylwadau wrth i'ch planhigion dyfu.






# Casgliad

- Beth wnaethoch chi ei ddarganfod?
- Beth ddigwyddodd i'ch planhigion? Pam ydych chi'n meddwl bod hyn wedi digwydd?
- Faint o ddŵr sydd ei angen ar eich planhigyn?





# Cystadleuaeth

Meddyliwch sut y gallech chi ddefnyddio'ch dysgu am yr hyn sydd ei angen ar blanhigion ac iechyd y pridd i'ch helpu chi i ddylunio syniad, dyfais neu arloesedd a fydd yn helpu ffermwyr i barhau i ofalu am yr amgylchedd a bod yn archarwyr hinsawdd.

**www.farmvention.com**



